

4. Gwirfoddolwyr

4.19 Gwerth economaidd cyfraniad gwirfoddolwyr

Cyflwyniad

Mae gwirfoddolwyr yn gwneud cyfraniad sylweddol, o ran oriau di-dâl, i economi Cymru. Amcangyfrifir bod gwirfoddolwyr yn cyfrannu 211 miliwn o oriau pob blwyddyn, sydd werth £2.2 biliwn. Mae hyn gyfystyr â bron i 4.6 y cant o CMC Cymru (WCVA 2014)¹.

Mae gan wirfoddoli hefyd werth mawr, sy'n anodd ei ddiffinio yn nhermau arian, o ran cydlyniad cymdeithasol, cynhwysiad, adfywio economaidd, a datblygiad cyfalaf cymdeithasol.

Gwerth economaidd gwirfoddolwyr

Gofynnir i lawer o fudiadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr beth yw gwerth economaidd y gwaith y mae eu gwirfoddolwyr yn ei wneud. Gall hyn fod er mwyn dangos yr arbedion ariannol i wasanaeth drwy gynnwys gwirfoddolwyr neu gall fod ar gyfer arianwyr neu fudiadau sy'n rhoi grantiau sydd efallai'n rhoi gwerth cyfatebol mewn nwyddau sy'n cyfateb i werth cyfraniad y gwirfoddolwyr. Os oes angen y wybodaeth hon arnoch ar gyfer cais am grant, efallai y bydd y dyfarnwr grant yn nodi pa gyfraddau byddant yn eu derbyn ar gyfer amser gwirfoddolwyr mewn gwahanol rolau (gweler isod) ond efallai na fydd eraill yn gwneud hyn felly bydd angen i chi gyfrifo hyn ac egluro sut y cafodd ei gyfrifo.

Y ffordd hawsaf a symlaf o gyfrifo gwerth economaidd cyfraniad gwirfoddolwyr yw defnyddio'r cyflog cenedlaethol fesul awr gan ddefnyddio'r fformiwla isod:

Nifer y gwirfoddolwyr x nifer cyfartalog o oriau x cyflog cenedlaethol fesul awr

Y cyflog cenedlaethol crynswth fesul awr ar gyfer cyflogeion llawn amser yng Nghymru yn 2015 yw £13.29. Gallwch weld y ffigur hwn yn Arolwg Blynnyddol o Oriau ac Enillion 2015 sy'n ymddangos ar wefan [Y Swyddfa Ystadegau Gwladol](#). Yn yr arolwg hwn gallwch hefyd weld y cyfraddau cyflog cyfartalog lleol neu lefelau o gyflog wedi'i rannu fesul swydd, y bydd yn well gennyh ei ddefnyddio o bosibl.

¹ WCVA (2014). Adnodd Ystadegol y Trydydd Sector 2014

Cost cynnwys gwirfoddolwyr

Efallai y byddwch hefyd am edrych ar faint mae'n ei gostio i gynnwys gwirfoddolwyr yn eich gwaith. Er mwyn sicrhau bod cyfraniad y gwirfoddolwyr o'r safon uchaf, mae'n hanfodol eu bod wedi cael eu hyfforddi'n dda a bod ganddynt yr offer cywir ac yn cael eu rheoli'n effeithiol ac mae hyn yn cynnwys cost bob amser. Mae'r gost fodd bynnag llawer yn is na gwerth eu gwaith.

Meysydd o Fuddsoddiad neu Gost

Gall mudiadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr fynd i gostau yn y meysydd a ddisgrifir isod. Gellir disgrifio rhai o'r costau hyn fel rhai 'hanfodol', mae eraill yn feysydd o arfer da a gellir ystyried eraill yn 'bethau ychwanegol' neu 'gostau ychwanegol i'w hystyried'.

Hanfodol:

- Gweinyddu gwirfoddol, cefnogaeth a chydabyddiaeth, cynnwys treuliau swyddfa, cyfathrebu, cyfarfodydd, digwyddiadau, tystysgrifau ac ati.
- Hysbysebu a recriwtio – bydd y costau yn dibynu ar p'un a roir hysbyseb a dalwyd amdano ai peidio, caiff taflenni a phosteri eu hargraffu ac ati.
- Sesiwn cychwynol a hyfforddiant – ar gyfer rhai mathau o wirfoddoli gall hyn fod yn sylfaenol iawn – yn syml er mwyn paratoi gwirfoddolwyr ar gyfer eu rolau. I eraill gall hyn fod yn gost sylweddol, fel hyfforddi cwnselwyr neu gynghorwyr gwirfoddol.
- Deunyddiau ac offer i alluogi'r gwirfoddolwr i wneud y tasgau y cytunwyd arnynt; gall y gost fod yn uwch yn dibynnu ar y gweithgaredd gwirfoddol e.e. gall costau fod ynghlwm wrth waith ieuencid neu fentora ar gyfer ymgymryd â gweithgareddau sy'n ymwneud â phobl ifanc.
- Yswiriant – dylai yswiriant gynnwys pob rhwymedigaeth i wirfoddolwr a holl rwymedigaethau sydd gan fudiad yn rhinwedd cynnwys gwirfoddolwyr mewn tasgau.
- Costau a threuliau – mae angen i wres a golau, gwaith adnewyddu, diogelwch a chostau eraill gael eu dyrannu i'r rheini sy'n elwa ohonynt, gan gynnwys gwirfoddolwyr.

Arfer gorau:

- Cyflogi Cydlynnydd neu Reolwr Gwirfoddoli, lle y bo'n briodol, mewn mudiad - gall swydd o'r fath helpu i gadw gwirfoddolwyr;
- Llety a bwyd - mae'n arfer da i dalu costau'r rhain tra bod rhywun yn gwirfoddoli i ffwrdd o gartref;
- Amser a roir gan reolwyr neu bobl eraill mewn mudiad i gefnogi a rheoli gwirfoddolwyr a gwirfoddoli (ac eithrio Cydlynnydd Gwirfoddoli);
- Treuliau gwirfoddolwyr – mae'n arfer da i ad-dalu costau teithio a chostau eraill o boced y gwirfoddolwyr sy'n galluogi pobl na fyddai fel arall yn gwirfoddoli i wneud hynny;

Costau ychwanegol i'w hystyried, os yw'n berthnasol:

- Hyfforddiant achrededig i wirfoddolwyr.
- Costau trwyddedu TG.
- Bydd rhai mudiadau yn ad-dalu costau gofal plant neu ofal arall.
- Costau uwchraddio yswiriant car ar gyfer defnydd busnes (i gynnwys gwirfoddoli).
- Offer diogelwch personol e.e. cymorth cyntaf, ffonau symudol.
- Costau ychwanegol ar gyfer gwirfoddolwyr sydd ag anghenion arbennig e.e. tacsï neu gost gweithiwr cymorth.
- Gwisg/bathodyn i'r gwirfoddolwr.
- Cost cyflawni'r Safon Ansawdd Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr

Gwneud cyfrif am amser Gwirfoddolwyr mewn ceisiadau am Gyllid

Bydd y gost o gynnwys gwirfoddolwyr yn amrywio'n sylweddol yn ôl natur y rôl a wneir, diwylliant a maint y mudiad. Mae rhai rolau er enghraifft, yn cynnwys cyfnod hir a drud o hyfforddi gwirfoddolwyr. Gall costau rhai mudiadau fod yn is gan eu bod ddim ond yn recriwtio gwirfoddolwyr sydd â'r arbenigedd gofynnol, neu gan fod lefel is o sgiliau yn ofynnol. Gall costau teithio amrywio e.e. gallai costau teithio fod yn uchel mewn ardaloedd gwledig lle cwmpasir ardaloedd daearyddol mawr.

Bydd mudiadau sy'n contractio i gyflenwi gwasanaethau yn gofyn am reoli a rheoleiddio gweithgaredd gwirfoddol yn llymach na phrosiect cymunedol er enghraifft, lle caiff gwirfoddoli ei ystyried yn fwy fel modd o ymgysylltiad cymunedol na modd o gyflenwi gwasanaethau.

Yn seiliedig ar yr uchod, dylid cydnabod bod y gost o gynnwys gwirfoddolwyr yn amrywio'n fawr rhwng mudiadau.

Mae amser gwirfoddolwyr fel ased ariannol wedi dod yn fwyfwy pwysig ymysg cyllidwyr. Mae'r gwerth a briodolir, fodd bynnag, yn amrywio o gronfa i gronfa.

Mae'r rhestr ganlynol o gyfraddau wedi'i llunio fel canllaw i'r gwerth y mae rhai cyllidwyr yn ei roi ar amser gwirfoddolwyr.

Mae'r **Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion** (2015) yn argymhell ar gyfer y DU y canolrif enillion yr awr ar gyfer gwaith llawn amser £13.29.

Mae **Cyngor Celfyddydau Cymru** fel arfer yn caniatáu £50 y dydd ar gyfer llafur, £100 y dydd ar gyfer llafur crefftus a gwasanaethau technegol, a £300 y dydd ar gyfer gwasanaethau proffesiynol.

Nid yw'r **Gronfa Loteri Fawr** yn rhoi gwerth ariannol ar amser gwirfoddolwyr gan nad yw'n gofyn am gyllid cyfatebol ond dylai ymgeiswyr gyfeirio at y deunydd canllaw perthnasol ar gyfer y rhaglen maent yn ymgeisio iddi.

Mae **Cronfa Dreftadaeth y Loteri** wedi cyhoeddi canllaw ar gyfrifo cost cyfraniad gwirfoddol i brosiectau, wrth asesu'r cyfraniad o'r ffynonellau hyn fel cyllid partneriaeth ar gyfer ceisiadau i'r loteri. Mae'n awgrymu: gwasanaethau proffesiynol – hyd at £350 y dydd; llafur crefftus - £150 y dydd; llafur di-grefft - £50 y dydd.

Nid yw **Chwaraeon Cymru** yn rhoi ffigwr penodol ond maent yn disgwyl i fudiadau gyfiawnhau unrhyw gostau a roddir e.e. mae disgwyl i lafur gwirfoddol ar waith adeiladu gael ei reoli a'i ardystio'n broffesiynol.

Mae **Amgylchedd Cymru a Chyngor Cefn Gwlad** wedi'u disodli gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

Cyfraddau mewn nwyddau Cyfoeth Naturiol Cymru ²

Rôl	Cyfradd yr awr (£)	Cyfradd dyddiol (£)
Di-grefft/Gweinyddol	6.25	50
Goruchwyliwr / sgiliau technegol	12.50	100
Proffesiynol (craffu cyfreithiol)	37.50	300

Mae'r **Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd** yn derbyn amser gwirfoddolwyr fel cyllid cyfatebol. Rhaid i'r gyfradd yr awr fod yn addas i'r math o waith a wneir a rhaid cyfiawnhau'r holl gostau.

Nid yw **Grantiau Gwirfoddoli Cymru** yn rhoi gwerth ariannol ar wirfoddoli ond mae'n talu mân dreuliau cymwys.

Gwybodaeth bellach

Archwiliad o Werth Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr

Mae'r Archwiliad o Werth Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr (VIVA) gan y Sefydliad Ymchwil Gwirfoddol yn cynnwys edrych ar y math o waith a wneir gan wirfoddolwyr ac amcangyfrif y gyfradd gyflog ar gyfer y gwaith hwnnw, yn ogystal â'r gost o gynnwys gwirfoddolwyr, fel amser rheoli. Mae hyn yn creu cymhareb yn dangos faint o werth a gynhyrchir o bob punt a fuddsoddir mewn gwirfoddoli.

[VIVA – The volunteer investment and value audit. A self-help guide](#) gan Katherine Gaskin

Pecyn Cymorth i Asesu Effaith Gwirfoddoli

Mae'r Pecyn Cymorth i Asesu Effaith Gwirfoddoli (VIAT), a ddatblygwyd gan y Sefydliad Ymchwil Gwirfoddoli, yn helpu mudiadau i asesu effaith gwirfoddoli, yn hytrach na gwerth economaidd yn unig. Gall mudiadau asesu effaith eu rhaglen gwirfoddoli ar bob rhanddeiliad allweddol – y gwirfoddolwyr, y mudiad, y buddiolwyr a'r gymuned ehangach.

I gael rhagor o wybodaeth ewch ar wefan [WCVA](#).

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cyngor Trydydd Sector Caerdydd

Tŷ Baltic, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FH

Elusen Gofrestredig: 1068623

Ffôn: 029 2048 5722

enquiries@c3sc.org.uk

Ffacs: 029 2046 4196

www.c3sc.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddarau: 14/09/2016



Ffôn: 0300 111 0124
www.wcva.org.uk